Vehicle & Operator Services Agency
Asianaeth Gwasanaethau
Cerbydau a Gweithredwyr

Cynllun Iaith Gymraeg

(Fersiwn Diwygiedig)

2010

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

BUDDSODDWR MEWN POBL

GADARN O BLAID YN · POBL ANABL

Saving lives, safer roads, cutting crime, protecting the environment
Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth

PARATOWYD CYNLLUN YR ASIANTAETH GWASANAETHAU CERBYDAU A GWEITHREDWYR O DAN ADRAN 21 DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993 AC YN UNOL Â CHANLLAWIAU A GYHOEDDWYD GAN FWRDD YR IAITH GYMRAEG O DAN ADRAN 9 DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993. CYMERADWYWYD Y CYNLLUN GAN Y BWRDD AR 24 TACHWEDD 2005.

CYMERADWYWYD Y CYNLLUN DIWYGIEDIG HWN GAN Y BWRDD O DAN ADRAN 16 DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993 AR 8 GORFFENNAF 2010.

CYNNWYS Para

RHAGARWEINIAD…… 1

CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR ASIANTAETH GWASANAETHAU CERBYDAU A GWEITHREDWYR……. 2-3

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO'R GWASANAETH.....

- Polisiau A Chynlluniau Newydd……. 4-7
- Cyflwyno'r Gwasanaeth…….. 8-13
- Safon Y Gwasanaeth…… 14-18

YMDRIN A'R CYHOEDD CYMRAEG EI IAITH

- Cyfathrebu Ysgrifenedig……. 19-20
- Cyfathrebu Dros Y Ffôn…….. 21-23
- Achosion Llys, Gwrandawiadau Ac Ymchwiliadau Cyhoeddus… 24-25
- Cyfweliadau Wyneb-Yn-Wyneb……. 26-30
- Cysylltiadau Eraill Gyda'r Cyhoedd……... 31

GWEDD GYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

- Hunaniaeth A Delwedd Gorfforaethol……. 32-33
    - Dogfennau…… 34
    - Penllythyrau……. 35
    - Arwyddion yng Nghymru……. 36
- Ffurflenni A Deunydd Esboniadol Cysylltiedig…… 37-40
- Cyhoeddi Ac Argraffu Deunyddiau…… 41-42
- Cysylltiadau A'r Cyfryngau……. 43
- Hysbysebion Recriwtio Staff, Hysbysiadau Swyddogol A Chyhoeddus… 44-46
- Cyhoeddusrwydd, Hysbysebu Ac Arddangosfeydd…… 47-52

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

- Cymeradwyaeth…… 53
- Staffio……. 54-57
- Dysgu'r Gymraeg……. 58-60
- Hyfforddiant Galwedigaethol…….. 61
- Trefniadau Gweinyddol…… 62-64
- Gwasanaethau A Ddarperir Ar Ran Yr Asiantaeth Gan Gyrff Eraill….. 65-68
- Swyddogaethau Statudol A Swyddogaethau Rheoleiddiol Eraill…….. 69
- Monitro'r Cynllun…… 70
- Cyhoeddi Gwybodaeth…….. 71
- Cyhoeddi'r Cynllun…… 72-74

Dangosyddion Yr Iaith Gymraeg (Atodiad A)…….

Cynllun Gweithredu (Atodiad B)……

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) yn Asiantaeth Weithredol i'r Adran Drafnidiaeth ac yn aelod Grwp Gwasanaethau Moduro a Chludo'r Adran Drafnidiaeth. Rydyn ni'n darparu amrywiaeth o wasanaethau trwyddedu, profi a gorfodi a'n nod yw gwella safonau addasrwydd cerbydau i fod ar y ffordd, sicrhau bod gweithredwyr a gyrwyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a chefnogi'r Comisiynwyr Traffig annibynnol. Mae ein prif weithgareddau'n cynnwys:

- Sicrhau bod cerbydau nwyddau, bysiau, bysiau moethus, ceir a beiciau modur yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu'n unol â'r safonau sylfaenol a bennir gan y gyfraith yn unol ag Asiantaethau Gorfodaeth eraill megis yr Heddlu a safonau masnach Awdurdodau Lleol, er mwyn gwella diogelwch y ffyrdd, safonau amgylcheddol a lleihau troseddau cerbyd.

- Cynnal profion blynyddol statudol ar gyfer cerbydau masnachol.

- Cynnal archwiliadau rheolaidd ac wedi'u targedu ar gerbydau, gyrwyr a gweithredwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch ar y ffordd.

- Darparu amrediad o weithgareddau addysgol a chynghorol ar ochr y ffordd ac yng nghannolfannau gweithredwyr er mwyn hybu diogelwch ar y ffordd.

- Cynnal ymchwiliadau technegol i ddiffygion cynhyrchu neu ddylunio posibl, tynnu sylw at bryderon ynghylch diogelwch a monitro'r broses o alw ceir yn ol am resymau diogelwch.

- Cefnogi'r Comisynwyr Traffig yn y gwaith o weinyddu'r system trwyddedu gweithredwyr Cerbydau Nwyddau a Gwasanaethau Teithiwr, monitro ymddygiad gyrwyr galwedigaethol a chofrestru gwasanaethau bws lleol.

- Mae gan VOSA oddeutu 2,600 o staff sy'n gweithio yn swyddfa'i Phencadlys ym Mryste, yn ei swyddfa ganolog yn Abertawe (lle'r ysgwyddir y cyfrifoldeb dros weinyddu Cynllun iaith gymraeg VOSA) a ledled rhwydwaith sy'n cynnwys 7 o Swyddfeydd Comisiynwyr Traffig, 88 o Orsafoedd Profi, gydag 7 o'r rheiny yng Nghymru a 21 o Swyddfeydd Ardal, gydag 1 o'r rheiny'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru ar hyn o bryd.

- Mae'r Comisynwyr Traffig yn annibynnol ar VOSA ond cânt gefnogaeth yr Asiantaeth i wneud penderfyniadau doeth am drwyddedu gweithredwyr, gyrwyr galwedigaethol a gofynion cofrestru bysiau.

- Dengys y ddogfen hon sut y bydd VOSA yn rhoi'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar waith o dan ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR ASIANTAETH GWASANAETHAU CERBYDAU A GWEITHREDWYR

2. Mae'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth arwain busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd VOSA yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd y cynllun:-

    - yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd yn cael ei adolygu i roi sylw i unrhyw ddeddfwriaeth a geir yn y dyfodol;
    - yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes yr Asiantaeth;
    - yn cael ei gynllunio er mwyn cyflwyno gwasanaethau'r Asiantaeth mewn modd cadarnhaol ac effeithiol i bobl Cymru;
    - yn cael cyhoeddusrwydd ymhlith y staff a'r cyhoedd; ac
    - yn cael ei reoli a'i fonitro gan y Cyfarwyddwr Strategaeth a Chwsmeriaid.

3. Mae VOSA eisoes yn darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru fel a ganlyn:

    - Tystysgrifau prawf MOT dwyieithog & dogfennau MOT cefnogol;
    - Hysbysiadau Cosb Benodedig Dwyieithog;
    - Ceisiadau i Gofrestru Gwasanaeth Bws Hyblyg Dwyieithog;
    - Ceisiadau Trwyddedu Gweithredwyr Dwyieithog;
    - atebir pob gohebiaeth yn Gymraeg yn yr un iaith;
    - trosglwyddir galwadau ffôn Cymraeg a dderbynnir gan Uned Ymholiadau'r Asiantaeth i weithredydd Cymraeg ei h/iaith; a
    - bod arwyddion allanol a mewnol mewn ardaloedd cyhoeddus yn ddwyieithog mewn swyddfeydd cyhoeddus yng Nghymru;
    - mae pob hysbyseb recriwtio a gyhoeddir mewn papurau newydd a leolir yng Nghymru'n ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd.

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO'R GWASANAETH

POLISÏAU A CHYNLLUNIAU NEWYDD

4. Bydd holl staff yr Asiantaeth, gan gynnwys y staff sy'n ymwneud â gweithredu polisïau a phrosiectau newydd yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau VOSA i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg o dan y Ddeddf.

5. Bydd y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn yn cael eu cymhwyso i bob polisi a chynllun newydd. Bydd canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisïau a chynlluniau newydd yn cael eu hasesu ar y cychwyn.

6. Bydd polisïau a chynlluniau newydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd a manteisir ar bob cyfle i symud yr Asiantaeth yn nes at roi egwyddor cydraddoldeb ar waith.

7. Bydd yr Asiantaeth yn ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch unrhyw gynigion sy'n effeithio ar y Cynllun. Bydd yr Asiantaeth yn ceisio am gymeradwyaeth y Bwrdd cyn newid y Cynllun.

CYFLWYNO'R GWASANAETH

8. Bydd cwsmeriaid sy'n dewis gohebu yn Gymraeg yn cael ateb a arwyddir yn Gymraeg.

9. Rhoddir tystysgrifau prawf MOT dwyieithog i berchnogion cerbydau mewn modurdai MOT a Gorsafoedd Profi VOSA ledled Cymru.

10. Mae VOSA wedi datblygu gwasanaeth sy'n caniatáu i gwsmeriaid sy'n ffonio Canolfan Gyswllt yr Asiantaeth gynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

11. Mae swyddfa ganolog VOSA yn Abertawe. Mae 7 Gorsaf Brofi, 1 Swyddfa Gorfodaeth Ardal ac 1 Swyddfa Ardal Draffig sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru – sydd yn cael ei weinyddu o Birmingham. Mae gwasanaeth dwyieithog ar gael yn swyddfa ganolog VOSA, 4 o'r 7 Gorsaf Brofi a'r 1 Swyddfa Gorfodaeth Ardal. Tra bydd efallai yn anodd i ddarparu gwasanaeth cwbl gyson drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn meysydd technegol neu arbenigol iawn, bydd yr Asiantaeth bob amser yn anelu at ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl pan mae'n rhesymol a'n ymarferol.

12. Mae VOSA yn addo nodi ym mhob swyddfa sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru y caiff cwsmeriaid gynnal eu busnes yn eu dewis iaith. Mewn swyddfeydd lle nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar y staff i warantu gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb, cynigir dewisiadau eraill. Bydd galwyr sydd eisiau siarad Cymraeg yn cael eu trosglwyddo naill ai i siaradwyr Cymraeg

13. Dyma enghreifftiau o sut mae VOSA yn bwriadu cyflwyno Gwasanaeth yn y Gymraeg:

    - Wrth bobl penodol yn swyddfa ganolog yr Asiantaeth yng Nghymru, yn medru darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

    - Bydd staff Cymraeg eu hiaith mewn un lleoliad ar gael i gynorthwyo staff, cwsmeriaid a phobl eraill yn ôl y galw.

    - Mabwysiadu trefniadau neu systemau sy'n hwyluso darparu'r gwasanaeth yn newis iaith y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a

    - Chyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol os bydd angen (Canolfan Language Export)

SAFON Y GWASANAETH

14. Nod yr Asiantaeth yw darparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn Gymraeg ag yn Saesneg a bydd y Cynllun Busnes yn cynnwys datganiad i'r perwyl hwn.

15. Bydd egwyddorion "Gwasanaeth yn Gyntaf" yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

16. Un ffactor pwysig wrth osod y safonau yw sicrhau bod modd i wasanaethau gael eu darparu gan staff sydd yn medru'r Gymraeg hyd at safon foddhaol, gyda dogfennau a deunyddiau o safon yn gefn iddynt.

17. Cynhelir arolwg rheolaidd gan y corff o'r adnoddau a ymrwymir i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i weithredwyr yng Nghymru.

18. Bydd safonau'r gwasanaeth a ddarperir gan VOSA yn cael eu monitro'n ofalus er mwyn sicrhau cysondeb.

YMDRIN Â'R CYHOEDD CYMRAEG EI IAITH

CYFATHREBU YSGRIFENEDIG

19. Mae croeso i gwsmeriaid yng Nghymru ohebu â VOSA naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.Bydd papur pennawd dwyieithog Yr Asiantaeth yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith yn nodi bod croeso i bobl ohebu yn y naill iaith neu'r llall. Bydd yr holl ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr amser penodol.Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn galwad ffôn neu gyfathrebu wyneb-yn-wyneb yn Gymraeg, yn Gymraeg hefyd. Mae gan VOSA drefn ar waith i ymdrin â gohebiaeth yn y Gymraeg. Os bydd angen cyfieithu allanol, trefnir hynny drwy gyfrwng gwasanaeth cyfieithu proffesiynol.

20. Bydd unrhyw gylchlythyr neu lythyr safonol yn cael ei anfon at y cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog. Dechreuir gohebu gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru yn newis iaith yr unigolyn, os yw'r wybodaeth honno ar gael. Fel arall, gohebir yn ddwyieithog.

    Byddwn yn gweithredu yn unol â chyngor y Bwrdd ynglyn â Deddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

    Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, fe fyddwn yn ei gyfieithu i'r iaith a ffafrir gan yr ymgeisydd, ar yr amod na fydd angen cyfieithu mwy na 100 o eiriau.

CYFATHREBU DROS Y FFÔN

21. Mae'r Asiantaeth yn croesawu ymholiadau dros y ffôn i'w Chanolfan Gyswllt yn Abertawe yn Gymraeg fel ag yn Saesneg.

22. Mae system ffôn otomatig ryngweithiol yr Asiantaeth, sydd fel arfer yn ateb cwsmeriaid sy'n galw Canolfan Gyswllt yr Asiantaeth, yn gofyn i alwyr a fyddent yn dymuno cynnal eu busnes yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Bydd y sawl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg a fydd yn ymdrin â'u hymholiad. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i gwsmeriaid sydd â'u ffôn wedi'i gysylltu â chyfnewidfa ffôn ddigidol (ni fydd yn gweithio â ffôn analog.) Os bydd cwsmeriaid o unrhyw ran o Gymru yn cysylltu â Chanolfan Gyswllt yr Asiantaeth ac am gynnal eu sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, fe'u trosglwyddir i rywun sy'n medru'r Gymraeg.

23. Os bydd pobl yn galw adrannau eraill VOSA lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i dderbyn yr alwad, bydd VOSA yn cynnig gwasanaeth galw-nôl yn Gymraeg o fewn un diwrnod gwaith, neu'r cyfle i barhau gyda'r alwad yn Saesneg. Mewn sefyllfa lle bo'r ymholiad yn arbennig o gymhleth neu o natur

arbenigol, bydd y galwr yn rhydd i barhau gyda'r sgwrs yn Saesneg neu i roi amlinelliad llawn o'u hymholiad drwy ysgrifennu yn Gymraeg. Yna, darperir ateb ysgrifenedig yn Gymraeg.

ACHOSION LLYS, GWRANDAWIADAU AC YMCHWILIADAU CYHOEDDUS

24. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi gwybod i'r cyhoedd, drwy roi neges ar y ddogfennaeth wreiddiol, bod modd cynnal achos llys yng Nghymru yn Gymraeg neu yn Saesneg. I'r rheiny sydd am gael gwrando'u hachos drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd VOSA, os derbynnir cais am hynny, yn trefnu i gael erlynydd a chyfieithydd sy'n siarad Cymraeg ac yn darparu'r holl ddogfennaeth angenrheidiol yn Gymraeg.

25. Mewn cyfarfodydd a gwrandawiadau o'r math hwn, bydd croeso i weithredwyr siarad Cymraeg neu Saesneg. Er mwyn hwyluso hyn, bydd VOSA yn cymryd y camau canlynol:-

- Pan gyhoeddir llythyron hysbysu i weithredwyr Cymraeg i fynychu Ymchwiliadau Cyhoeddus, neu pan gyhoeddir hysbysiadau eraill ynglyn â gwrandawiadau neu gyfarfodydd, caiff hawl y rhai hynny sy'n mynychu i ddefnyddio eu dewis iaith, p'un ai Cymraeg neu Saesneg, eu nodi'n glir, gofynnir iddynt gyfeirio at eu hoff dewis, wrth dicio'r blwch priodol.

CYFWELIADAU WYNEB-YN-WYNEB

26. Bydd VOSA yn sicrhau bod y sawl sy'n dymuno cael cyfarfod wyneb-yn-wyneb yng Nghymru gyda'r Asiantaeth yn gallu gwneud hynny a bod croeso iddynt wneud hynny yn Gymraeg fel ag yn Saesneg. Er mwyn hwyluso hyn, bydd VOSA yn dilyn y camau canlynol naill ai mewn geiriau neu'n ysgrifenedig:-

- Os bydd cwsmer yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfweliad, ac nad oes siaradwr Cymraeg ar gael o'r ardal weithredol berthnasol, gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i siaradwr Cymraeg o ardal arall sy'n gallu cynnal y cyfweliad.

27. Ymdrin â'r fasnach foduro'n bennaf y mae Gorsafoedd Profi VOSA yng Nghymru. Mae ganddynt wahanol lefelau o alw am wasanaethau Cymraeg ond ein bwriad yw darparu gwasanaeth ym mhob un. Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith, bydd y cwsmer yn gallu siarad yn Gymraeg gydag un o swyddogion VOSA dros y ffôn.

28. Yn ardaloedd cyhoeddus VOSA yng Nghymru, bydd presenoldeb arwyddion a dogfennau Cymraeg yn ei gwneud hi'n glir bod VOSA yn croesawu busnes yn Gymraeg ac yn Saesneg.

29. Rhoddir bathodynnau " Iaith Gwaith" ac arwyddion desg i siaradwyr Cymraeg sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol gyda'r cyhoedd, er mwyn dangos eu bod ar gael i bobl siarad Cymraeg â hwy.

30. Bydd dogfennau adnabod, a ddefnyddir gan swyddogion gorfodi er mwyn profi i'r cyhoedd yng Nghymru pwy ydynt, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

CYSYLLTIADAU ERAILL GYDA'R CYHOEDD

31. Bydd VOSA yn ymrwymo i'w nod hirdymor i ddatblygu a darparu pob gwybodaeth ar ffurf testun Cymraeg – er enghraifft, posteri a ffurflenni yn ddwyieithog.

    Yn y dyfodol, mae VOSA yn gobeithio datblygu'r defnydd o ddulliau electronig o gyfathrebu gyda gweithredwyr a'r cyhoedd. Gallai'r rhain gynnwys terfynellau cyfrifiadur wrth gownteri cyhoeddus, cysylltiadau telefideo a phost electronig. Os bydd y datblygiadau hyn yn digwydd, bydd VOSA yn:-

    - Sicrhau y gall y cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg
    - Sicrhau y bydd pob neges neu arddangosfa electronig yn ddwyieithog
    - Sicrhau y caiff deunydd arddangosfa ei arddangos yn ddwyieithog.

Y Wefan.

Mae'r wybodaeth mae VOSA yn ei chynhyrchu am drafnidiaeth ar gyfer y sector trafnidiaeth fasnachol ar gael mewn Canllawiau ar Thema Trafnidiaeth gwefan Business Link.gov.uk. Mae'r un wybodaeth hefyd ar gael ar safle Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Cyhoeddir gwybodaeth y mae VOSA yn ei chynhyrchu am drafnidiaeth ar gyfer dinasyddion ar adran Moduro gwefan Direct.Gov.UK. Mae'r wybodaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r Saesneg.

Mae'r wybodaeth a gyhoeddir ar safle corfforaethol VOSA ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

GWEDD GYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

HUNANIAETH A DELWEDD GORFFORAETHOL

32. Bydd VOSA yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Ni newidir yr acronym na'r logo a ddefnyddir ar gyfer yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr(VOSA.) Lle bydd teitl VOSA yn ymddangos yn llawn, bydd y ffurf ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru.

33. Bydd cyfeiriad VOSA a gwybodaeth safonol arall yn gwbl ddwyieithog ar eitemau megis arwyddion, cerbydau, adeiladau, papurau ffacs, cardiau busnes, cardiau adnabod, slipiau cyfarch, amlenni a nwyddau a defnyddiau eraill o swyddfeydd yng Nghymru.

Dogfennau

34. Ar hyn o bryd, mae VOSA yn cyhoeddi'r Tystysgrif Prawf MOT i'r cyhoedd ar ffurf ddwyieithog electronig.

Penllythyrau

35. Anfonir dau wahanol fath o lythyrau gan VOSA, y rhain yw :-

- Llythyrau cyffredin unigryw - mae cyfleusterau penllythyr dwyieithog ar gael bellach ar gyfer llythyrau a gynhyrchir ar gyfrifiaduron personol ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio pan fydd y cwsmeriaid a swyddfeydd VOSA ill dau yng Nghymru; a

- Llythyron a gynhyrchir ar gyfrifiadur – er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun hwn, ein harferiad bydd cynhyrchu'r rhain yn ddwyieithog, pan fydd y cwsmeriaid a swyddfeydd VOSA ill dau yng Nghymru.

Arwyddion yng Nghymru

36. Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gydradd o ran eu maint, eu hansawdd a'u hamlygrwydd.Pan fydd Y Saesneg a'r Gymraeg ar yr un arwydd, byddant yn gydradd o ran eu maint, eu ffont ac eu hamlygrwydd a.y.b.

FFURFLENNI A DEUNYDD ESBONIADOL CYSYLLTIEDIG

37. Byddwn yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o ffurflenni a thaflenni sydd at ddefnydd y cyhoedd, oni bai fod rheswm cryf dros beidio e.e. cynhyrchu nifer fach iawn bob blwyddyn, ystyriaethau technegol, corfforol neu ariannol sy'n ei gwneud hi'n anymarferol, neu ffurflenni nad ydynt yn effeithio ar y cyhoedd.

38. Bydd pob ffurflen neu daflen sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd yn cael ei rhestru a'i blaenoriaethu ar sail ei phwysigrwydd tybiedig i'r cyhoedd yn gyffredinol a faint o newid fydd ei angen ar systemau'r VOSA. Y radd flaenoriaeth hon fydd yn pennu'r amserlen ar gyfer cyflwyno fersiwn dwyieithog neu Gymraeg.

39. Y nod yw cynhyrchu dogfennau dwyieithog. Os nad oes modd gwneud hyn, er enghraifft, lle bo cyfyngiadau dimensiynau cyffredinol y ffurflen yn golygu bod y testun yn rhy fach i'w ddarllen yn glir, datblygir fersiynau ar wahân. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.Bydd cyn hawsed cael gafael ar gopi o'r ddogfen yn y naill iaith ag yn y llall.

40.Mae taflenni gwybodaeth allweddol Yr Asiantaeth yn ddwyieithog. Mae'r Cyfarwyddiadau Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar gael ar wahân,ar ffurf fersiwn Cymraeg a Saesneg.

CYHOEDDI AC ARGRAFFU DEUNYDDIAU

41.Bydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi ac yn argraffu'n ddwyieithog unrhyw ddeunydd a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n unig. Os bydd angen cyhoeddi fersiynau ar wahân, bydd cyn hawsed cael gafael ar gopi o'r ddogfen yn y naill iaith ag yn y llall.

Eitemau Categori A: i fod yn ddwyieithog (neu mewn amgylchiadau eithriadol, ar gael ar wahân mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg.)

- Hysbysebion.
- Tystysgrifau Prawf MOT Dwyieithog.
- Holl ddogfennau MOT ategol.
- Hysbysiadau Cosb Benodedig a Gwysion.
- Ceisiadau i Gofrestru Gwasanaeth Bws Hyblyg dwyieithog.
- Arwyddion allanol a mewnol mewn ardaloedd cyhoeddus,yn ddwyieithog mewn swyddfeydd cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae pob hysbyseb recriwtio a gyhoeddir mewn papurau newydd a leolir yng Nghymru'n ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd.
- Papur pennawd dwyieithog yr Asiantaeth.
- Mae pob hysbyseb swyddi a gyhoeddir mewn papurau newydd a leolir yng Nghymru'n ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd.
- Unrhyw gylchlythyr neu lythyr safonol yn cael ei anfon at y cyhoedd yng Nghymru.
- Rhoi gwybod i'r cyhoedd, drwy roi neges ar y ddogfennaeth wreiddiol, bod modd cynnal achos llys yng Nghymru yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Llythyron hysbysu i weithredwyr Cymraeg i fynychu Ymchwiliadau Cyhoeddus – caiff hawl y rhai hynny sy'n mynychu i ddewis eu dewis iaith p'un ai Cymraeg neu Saesneg.

- Arwyddion dwyieithog yn ardaloedd cyhoeddus VOSA yng Nghymru.
- Dogfennau adnabod.
- Posteri / Pamffledi
- Caiff deunydd arddangosfa ei arddangos yn ddwyieithog.
- Hunaniaeth Gorfforaethol Ddwyieithog (lle bydd teitl VOSA yn ymddangos yn llawn, bydd y ffurf ddwyieithog yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru.)
- Bydd cyfeiriad VOSA a gwybodaeth safonol arall yn gwbl ddwyieithog megis: arwyddion, cerbydau, adeiladau, papurau ffacs, cardiau busnes a chardiau adnabod, slipiau cyfarch, amlenni a nwyddau a defnyddiau eraill o swyddfeydd yng Nghymru.
- Holiaduron a gynhelir yng Nghymru.
- Arolygon ymhlith y cyhoedd a gynhelir yng Nghymru.
- Bydd datganiadau i'r wasg am gyhoeddiadau yn yr Iaith Gymraeg yn ddwyieithog, pan gyhoeddwyd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Eitemau Categori B: Yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

- Taflenni a ddosberthir mewn cynadleddau gan gyrff neu unigolion eraill.
- Cyfrifon (oni bai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol.)
- Gwybodaeth fewnol a gyhoeddir yn gyffredinol o dan ryddid i wybodaeth.

42. Os gwerthir unrhyw ddogfen a gyhoeddir gan yr Asiantaeth, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn uwch na phris y fersiwn uniaith. Bydd pris fersiwn uniaith Gymraeg o ddogfen yr un fath â phris y fersiwn Saesneg.

CYSYLLTIADAU Â'R CYFRYNGAU

43. Bydd yr Asiantaeth yn darparu datganiadau dwyieithog i'r wasg yn ymwneud â materion a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n unig, i ganolfannau'r cyfryngau a leolir yng Nghymru. Bydd datganiadau a hysbysiadau i'r wasg a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng ngwledydd Prydain yn gyffredinol yn Saesneg yn unig. Bydd datganiadau i'r wasg, a leolir yng Nghymru'n ddwyieithog.

HYSBYSEBION RECRIWTIO STAFF, HYSBYSIADAU SWYDDOGOL A CHYHOEDDUS

44. Er 1998, mae hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio sy'n cael eu cyhoeddi mewn papurau newydd sydd a chylchrediad yn bennaf yng Nghymru wedi bod yn ddwyieithog gan ddangos y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Bydd hyn yn parhau. Cynhyrchir cyngor a ffurflenni a gyflenwir at y diben hwn yn ddwyieithog.Mae gofyn i ymgeiswyr am drwyddedau gweithredwyr hysbysebu eu bwriad, yn ddwyieithog yng Nghymru.Ni fydd yn bosib gosod hysbysebion o'r fath yn Gymraeg yn unig.

45. Ffurflenni a phecynnau cais - os ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, nodir hyn yn glir wrth recriwtio ar gyfer y swydd honno.

46. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu drwy sicrhau bod hysbysebion recriwtio mewn cyhoeddiadau cyfryngau, yng Nghymru'n ddwyieithog.

CYHOEDDUSRWYDD, HYSBYSEBU, CYFLWYNIADAU AC ARDDANGOSFEYDD

47. Bydd yr holl gyhoeddusrwydd a'r hysbysebion mewn papurau newydd a leolir yng Nghymru'n ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd.

48. Byddwn yn cyhoeddi posteri cyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo eraill VOSA yn ddwyieithog yng Nghymru. Os nad oes modd gwneud hyn, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r un maint, ar yr un ffurf ac o'r un ansawdd yn cael eu dosbarthu a'u harddangos mewn modd sy'n parchu'r egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd.

49. Bydd deunyddiau arddangos mewn unrhyw gynhadledd, seminar, cyflwyniad neu arddangosfa a gynhelir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu ar ffurf fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân,yn unol â'n polisi cyhoeddiadau.

50. Bydd unrhyw arolwg ymhlith y cyhoedd neu ymchwil i'r farchnad a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol yn ddwyieithog yng Nghymru.

51. Bydd unrhyw arolwg ymhlith y cyhoedd neu ymchwil i'r farchnad a gynhelir yng Nghymru'n ddwyieithog.

52. Darperir canllawiau i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu deunydd cyhoeddusrwydd, fel y Swyddfa Wybodaeth Ganolog(COI.) Bydd llenyddiaeth cyhoeddusrwydd i Gymru yn ddwyieithog.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

CYMERADWYAETH

53. Pan fydd y cynllun iaith hwn ar ei ffurf derfynol ar ôl ymgynghori, bydd yn cael ei gyhoeddi gyda chymeradwyaeth Bwrdd Cyfarwyddo'r Asiantaeth.

STAFFIO

54. Bydd yr Asiantaeth yn sicrhau bod staff sydd yn gweithio yng Nghymru'n ceisio cael gafael ar ddigon o siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau priodol i alluogi'r staff hynny i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

55. Bydd yr Asiantaeth yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi lle bo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rheiny lle bo'n ddymunol a pha lefel o hyfedredd sydd ei hangen ym mhob achos. Wrth lunio disgrifiadau timau a swyddi, bydd rhaid ystyried yn ofalus unrhyw angen posibl am y gallu i siarad neu ysgrifennu'r Gymraeg.

56. Bydd yr Asiantaeth yn cynnal archwiliad i sgiliau ei staff gyda golwg ar eu medrusrwydd yn yr Iaith Gymraeg, a thraddodi unrhyw fylchau drwy hyfforddiant a recriwtio. Bydd yr Asiantaeth yn diweddaru ac yn cadw cofnod o'r wybodaeth hon.

57. Bydd yr Asiantaeth yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac yn sefydlu ac yn gweithredu rhaglen hirdymor i sicrhau bod staff â'r sgiliau priodol yn cael eu lleoli yn y mannau priodol.

DYSGU'R GYMRAEG

58. Mae VOSA yn ymrwymedig i sicrhau llwyddiant y Cynllun. Felly mae'n cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant Cymraeg i'r staff, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r staff sy'n fan cyswllt cyntaf i weithredwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Yn bennaf, mae hyn yn berthnasol i'r staff y mae angen iddynt ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i geisiadau, ymholiadau a chwynion. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnwys i fewn i Strategaeth Hyfforddi Sgiliau Iaith Gymraeg VOSA ac yn y cynllun datblygu. Bydd VOSA yn darparu:

- Pecynnau hyfforddi ar dâp
- Pecynnau hyfforddiant Cymraeg ar CD-ROM yn ein Canolfan Adnoddau Hyfforddi

59. Mae pecynnau dysgu'r Gymraeg ar dâp eisoes ar gael i'w benthyca gan Ganolfan Adnoddau Hyfforddi'r Asiantaeth.

60. Pan fydd Cynllun yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr yn ei le, bydd yr Asiantaeth yn edrych am gyrff allanol i'w cynorthwyo i ddarparu'r hyfforddiant hwn, os ni ellir ei wneud yn fewnol gan Ganolfan Adnoddau Hyfforddi'r Asiantaeth.

HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL

61. Fel rhan o'i rhaglen hyfforddi, bydd VOSA yn asesu'r angen am hyfforddiant penodol ym maes cyfathrebu a phrosesu geiriau drwy gyfrwng y Gymraeg.

TREFNIADAU GWEINYDDOL

62. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddo a fydd yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun hwn. Penodir Rheolwr Cynllun yr Iaith Gymraeg a fydd yn gyfrifol am, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Chwsmeriaid am fonitro a goruchwylio gweithredu'r Cynllun. Bydd y swyddog yn cynghori'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Chwsmeriaid ynghylch y camau sydd i'w cymryd i roi'r Cynllun ar waith. Dirprwyir y cyfrifoldeb am weithredu agweddau penodol o'r cynllun i'r rheolwyr perthnasol o fewn yr Asiantaeth.

63. Sicrheir bod staff a rheolwyr yr Asiantaeth yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth drwy ddefnyddio cyfryngau cyfathrebu mewnol megis newyddlen a chylchlythyrau'r Asiantaeth. Rhoddir tywyslinellau i staff yr Asiantaeth a fydd yn egluro sut y mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn perthyn i'w swyddi unwaith y cymeradwywyd y Cynllun.

64. Mae'r Asiantaeth wedi trefnu gyda gwasanaeth cyfieithu proffesiynol allanol (Canolfan Language Export) i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu o safon ar gael i VOSA pan fo angen.

GWASANAETHAU A DDARPERIR AR RAN YR ASIANTAETH GAN GYRFF ERAILL

65. Bydd rhan helaeth o ymwneud yr Asiantaeth gyda'r cyhoedd yn cael ei chynnal drwy gyfrwng asiant – Siemens. Bydd gofyn cael fersiynau Cymraeg o ffurflenni sy'n hysbysu'r cyhoedd ynghylch canlyniadau'r profion a bod y rheiny ar gael ar ffurf ddwyieithog. Bydd yr holl destun safonol a'r testun sydd wedi'i argraffu ymlaen llaw a ysgrifennwyd ar y ffurflenni hyn, yn ddwyieithog.

66. Bydd yr Asiantaeth yn sicrhau, drwy gyfrwng trefniadau contractio, bod yr asiant neu'r contractiwr yn ymwybodol o ofynion y cynllun ac yn cydymffurfio â hwy wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran VOSA. At y diben hwn, bydd yr Asiantaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y dogfennau tendro a'r contractau perthnasol yn cael eu llunio fel bo'u darpariaethau'n adlewyrchu'r ymrwymiadau a wneir yn y cynllun hwn.

67. Mae VOSA yn gweithio mewn partneriaeth a chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae VOSA yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill: e.e.

- Pan fo VOSA yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith.

- Pan fo VOSA yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd mewnbwn y sefydliad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd VOSA yn annog y partion eraill i gydymffurfio.

- Pan fo VOSA yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y sefydliad yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith.

68. Pan fo VOSA yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar partneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd VOSA yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

SWYDDOGAETHAU STATUDOL A SWYDDOGAETHAU RHEOLEIDDIOL ERAILL

69. Wrth ganlyn ei swyddogaethau statudol a rheoleiddiol, bydd VOSA yn annog y rheini sy'n delio â'r materion hyn i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac i gyflwyno arfer dwyieithog. Bydd yn gofyn iddynt wneud hynny drwy:-

- Nodi hyn ar ddogfennau gwneud cais a ddosberthir i'r cyhoedd.

- Eu hysbysu bod VOSA wedi mabwysiadu ac yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.

- Darparu ar eu cais, unrhyw wybodaeth neu gyngor o ran y materion hyn.

MONITRO'R CYNLLUN

70. Mae VOSA yn ymwybodol o bwysigrwydd trefn strwythuredig a pharhaus i fonitro'r Cynllun ac i werthuso sut mae'n cyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth. Cyfarwyddwr Strategaeth a Chwsmeriaid yr Asiantaeth fydd yn gyfrifol am fonitro Cynllun Iaith Gymraeg VOSA. Bydd hyn yn cynnwys:-

    - Blaengynllunio a Chaffael – i sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen gyda pholisïau a chynlluniau newydd a chyhoeddiadau a rhaglenni cyfrifiadurol newydd gyda golwg ar yr ymrwymiadau a wneir yn y cynllun hwn;

    - Trefnu a Chyflwyno Gwasanaethau – i fonitro gweithrediad ac effeithiolrwydd trefniadau i gyflwyno gwasanaethau'r sefydliad yn Gymraeg;

    - Ymwneud â'r Cyhoedd Cymraeg ei iaith i fonitro cyfnodau ymateb i ohebiaeth Gymraeg, ansawdd y gwasanaeth cyfieithu;

- Gwedd Gyhoeddus y Sefydliad – i fonitro delwedd gorfforaethol yr Asiantaeth, cyflwyno cyhoeddiadau dwyieithog, ffurflenni, arwyddion, hysbysiadau a dogfennau eraill;

- Staffio – monitro gweithredu'r camau staffio a hyfforddi a nodir yn y cynllun. Bydd VOSA yn cadw cofnod o'r wybodaeth am sgiliau Cymraeg y staff. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiadau blynyddol a anfonir at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- Amserlen – monitro'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r amserlen, a

- Chwynion – ymdrinnir â'r rhain gan Gydgysylltwr Cwynion VOSA ynghyd â Rheolwr Cynllun Yr Iaith Gymaeg, os na ellir cael eu trafod ar lefel lleol. Byddant yn monitro nifer a natur y cwynion sy'n ymwneud â'n gwasanaeth Cymraeg, fel rhan o drefn gwyno gyfredol yr Asiantaeth.

- Nod yr Asiantaeth yw cynnal arolygon cyfnodol i brofi barn defnyddwyr y gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg ynghylch ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

- Bydd yr Asiantaeth yn croesawu, yn cofnodi ac yn cydnabod awgrymiadau ar gyfer gwella'i chynllun iaith Gymraeg.

- Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar eu cais, gan amlinellu'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun hwn. Bydd adroddiadau monitro'n cynnwys data a gesglir yn unol â'r dangosyddion perfformiad a roddir yn Atodiad A. Bydd adroddiadau monitro VOSA yn cael eu hanfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol, bob Mehefin.

- Byddwn yn paratoi, ac yn diweddaru yn barhaus cynllun gweithredu manwl, y cytunir arni gan y Bwrdd, gan nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Daw'r cynllun gweithredu yn weithredol ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan â phosib yn dilyn y dyddiad hwnnw. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed. Bydd adroddiadau monitro yn adrodd ar gyflawniad y cynllun gweithredu.

CYHOEDDI GWYBODAETH

71. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar berfformiad yr Asiantaeth o'i gymharu â'r targedau a nodir yn y cynllun yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yr Asiantaeth a bydd yn esbonio unrhyw fethiant i gyrraedd y targedau ac yn esbonio pa gamau a gymerir i wneud iawn am y sefyllfa.

CYHOEDDI'R CYNLLUN

72. Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r Cynllun drwy gyfrwng y rhyngrwyd / mewnrhwyd, cynllun busnes yr Asiantaeth a thrwy gyfrwng taflenni a phosteri addas, a fydd ar gael yn ein Gorsafoedd Profi a leolir yng Nghymru a thrwy ein Canolfan Gyswllt a leolir yn Swyddfa Ganolog yr Asiantaeth yn Abertawe.

73. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd ychwanegol parhaus i'r ffaith ei bod yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddefnyddio neges ddwyieithog ar bapur pennawd dwyieithog.

74. Rhoddir gwybod i Staff am y Cynllun drwy gyfrwng newyddlen staff VOSA, a rhoddir canllawiau iddynt i'w cynorthwyo yn y gwaith o roi'r Cynllun ar waith.

ATODIAD A

CYNLLUN IAITH GYMRAEG VOSA
Dangosyddion Iaith Gymraeg.

Gweithredu rhaglen prif-ffrydio'r polisi
Cynllunio a Chyflwyno'r Gwasanaeth.
Cynlluniau a Pholisïau Newydd.

Dangosydd Iaith Gymraeg 1
Nifer y cynlluniau a pholisïau diwygiedig a newydd perthnasol sydd wedi prif-ffrydio'r Iaith Gymraeg.

Monitro'r Cynllun
Safon gwasanaethau Cymraeg.

Dangosydd Iaith Gymraeg 2
Nifer y cwynion a gafwyd ynghylch gweithredu'r Cynllun Iaith a chanran y cwynion y deliwyd â hwy'n unol â safonau corfforaethol y sefydliad.

Adnoddau'r Gweithlu – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Sgiliau

Dangosydd Iaith Gymraeg 3
(Datblygiad a Hyfforddiant Ieithyddol a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.)

Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymraeg hyd at lefel cymhwyster penodol.
Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Iaith.

ATODIAD B

Cynllun Gweithredu: Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr.

1. Cynllunio a Chyflwyno'r Gwasanaeth **Polisïau, Deddfwriaeth a Chynlluniau.**

Camau Gweithredu	**Dyddiad targed**	**Cyfrifoldeb**
VOSA i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg.	Ar unwaith. Wedi'i fonitro, yn ôl y gofyn, o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.	Rheolwr Cynllun yr iaith Gymraeg. Pennaeth Cynllun Iaith Gymraeg VOSA (Pennaeth cyfathrebiadau corfforaethol) Cyfarwyddwr Strategaeth a Chwsmeriaid.
Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosibl er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun. Ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y cynllun.	Ar unwaith. Monitro'n rheolaidd o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Pennaeth Cynllun Iaith Gymraeg VOSA.
Polisïau, prosiectau a datblygiadau newydd. Gofyniad i ystyried anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ar y cam datblygu a monitro'r cynllun iaith gydol y prosiect. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'w gynnal ar unrhyw bolisi newydd neu newidiadau i brosesau. Archwilir y rhain bob dwy flynedd. (Mae'r nodiadau canllaw a'r templed ar y fewnrwyd.) Cyfarwyddwyr i sicrhau bod y Cyfarwyddiaethau'n cyflenwi gwasanaethau ac yn datblygu a mabwysiadu polisïau ac arferion yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg.	Ar unwaith. Monitro'n chwarterol. Sicrhau y cydymffurfir â'r Cynllun Iaith Gymraeg, o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.	Rheolwyr Prosiectau Unigol. Pennaeth y Swyddfa Rhaglenni. Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Rheolwr Amrywiaeth.
Cynlluniau Newydd. Rhestr gyfeirio ac arweiniad yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei dosbarthu i'r rhai sy'n gyfrifol am bolisïau a phrosesau ar gyfer gallu cyfeirio ati.	Cwblhawyd. Monitro'n chwarterol.	Cyfarwyddwyr yn ymwybodol ac yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i waith eu Cyfarwyddiaethau nhw.
Sicrhau bod fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gael i'r holl staff drwy sianeli priodol, gan gynnwys Mewnrwyd VOSA. Sicrhau bod rhestr gyfredol o siaradwyr Cymraeg ar gael at	Cwblhawyd. Rhestr siaradwyr Cymraeg yn cael ei monitro bob deufis.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

ddefnydd mewnol er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth yn Gymraeg (Canolfan Gyswllt.)		
Systemau TGCh/gwefannau dwyieithog newydd. Cydymffurfio â safle FS4B (Cymorth Hyblyg i Fusnes) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddir gwybodaeth sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, sy'n cael ei chreu gan VOSA, ar adran Moduro gwefan Direct.Gov yn Gymraeg a Saesneg. Darparu safle Corfforaethol VOSA yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg VOSA.	O ddyddiad cymeradwyo'r cynllun. Cydymffurfio â FS4B – o Chwefror 1 2010 * Gofynnir i ni nodi datganiad polisi ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer Uwchwefan Cymorth Hyblyg i Fusnes Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ystyried cefnogi'r datganiad mewn ymateb i lythyr oddi wrth Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y Cynulliad at holl Asiantaethau ac Adrannau Llywodraeth y DU sydd â Chynllun Iaith Gymraeg. Anfonwyd llythyrau at Brif Weithredwyr o 7 Rhagfyr 2009 ymlaen.	Pennaeth Rheoli Gwybodaeth. Swyddfa'r Comisiynydd Traffig.
Hyrwyddo defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith, fel iaith fusnes ac fel iaith cyfathrebu, lle bo hynny'n ymarferol, ac annog siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr. Strategaeth sgiliau iaith Gymraeg yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Dîm Dysgu a Datblygu VOSA.	Monitro'n flynyddol. Dyddiad targed o 18 mis (Ionawr 2011)	Uwch Reolwr AD. Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Tîm Dysgu a Datblygu VOSA.

2010 / 2011
Adolygu'r trefniadau i sicrhau bod staff yn ymwybodol o ddarpariaethau'r Cynllun a diweddaru'r canllawiau a'u diwygio yn ôl yr angen.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2. Cyflwyno Gwasanaeth

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Monitro'r galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein canolfannau Profi yng Nghymru, yn y Ganolfan Gyswllt a Swyddfa Abertawe (Ellipse)	O'r adeg y cymeradwyir y cynllun. Yn ôl yr angen.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Rheolwyr Cymru Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Rheolwyr Gorsafoedd Profi.
Safon gwasanaeth – Datganiad i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chynllun Busnes VOSA. Cyhoeddir copi o Gynllun Iaith Gymraeg VOSA ar y wefan mewn lle amlwg. Mae derbynfa VOSA yn dwyn sylw at wasanaethau yn y Gymraeg. Ceir cyfeiriad at wasanathau Cymraeg ar ein papur pennawd.	Cwblhawyd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Tîm Dylunio Sefydliadol Tîm y wefan Tîm lletya Ellipse.
Annog staff sy'n siarad Cymraeg, neu staff sy'n dysgu Cymraeg, i wisgo bathodynnau " Iaith Gwaith" / "Working Welsh" yn dangos eu gallu i siarad â'r cyhoedd yn Gymraeg.	O ddyddiad cymeradwyo'r cynllun. Siaradwyr Cymraeg Ellipse yn gwisgo bathodynnau "Iaith Gwaith".	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Rheolwr y Ganolfan Gyswllt. Swyddog Amrywiaeth.
Annog aelodau o'r grŵp "Moduro a Chludo" i rannu arferion da a chydweithio ar brosiectau er budd eu Cynlluniau Iaith Gymraeg amrywiol. Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cymraeg adrannau'r Llywodraeth.	Pwyllgor Cymraeg Adrannau'r Llywodraeth. (Cross Agency Welsh Commitee) yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.	Rheolwr y Cynllun iaith Gymraeg.

2010 / 2011
Parhau i gofnodi a monitro'r galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.
Cyflwyno adroddiad ar gydymffurfiaeth bob chwarter i bennaeth cyfathrebiadau corfforaethol.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

3. Safon y Gwasanaeth

Camau Gweithredu	Dyddiad targed	Cyfrifoldeb
Dogfennau VOSA i'r cyhoedd yng Nghymru i gynnwys datganiad clir mewn perthynas â chydraddoldeb y gwasanaeth a chyflwyno'r gwasanaeth.	Monitro parhaus fel rhan o welliant parhaus, yn sicrhau cysondeb.	Rheolwr y Cynllun iaith gymraeg. Rheolwyr Gweithredol.

2010 / 2011
Parhau i fonitro'r broses o archebu deunydd dwyieithog yng Nghymru.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

4. Asiantaethau'r Adran Drafnidiaeth

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Cysylltu â'n Hasiantaethau i ddwyn eu sylw at ein Cynllun, a gofyn iddynt weithredu yn unol â'r Cynllun hwnnw.	Ar waith yn barod.	Holl asiantaethau'r Adran Drafnidiaeth. (Gelwir VOSA, DVLA, DSA a VCA wrth yr enw grŵp "Gwasanaethau Moduro a Chludo".)

2010 / 2011
Parhau i fonitro ac adolygu.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

5. Safonau Ansawdd

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Sicrhau y gellir darparu gwasanaethau gan staff sy'n meddu ar gymhwysedd boddhaol yn y Gymraeg. Cynllun Iaith Gymraeg VOSA yn cael cyhoeddusrwydd eang ymysg staff VOSA. Staff VOSA yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg VOSA	Ar waith yn barod. Arolwg rheolaidd o'r adnoddau a ymrwmir i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i Weithredwyr / Cwsmeriaid.	Cyfarwyddwyr. Uwch Reolwyr a Rheolwyr Llinell VOSA. Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

a'r ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.		

2010 / 2011
Parhau i fonitro ac adolygu.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

6. Cyfathrebu Ysgrifenedig

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Darparu arweiniad i staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddelio â gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn ymwybodol fod yr un targedau ar waith ar gyfer gohebiaeth yn Gymraeg ag yn Saesneg. Mae croeso i gwsmeriaid yng Nghymru ohebu â VOSA yn Gymraeg neu yn Saesneg. (Papur pennawd llythyrau yn ddwyieithog)	Ymdrinnir yn Gymraeg ac ymatebir yn Gymraeg i bob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.	Rheolwyr Gweithredol.

2010 / 2011
Diweddaru'r canllawiau a'u diwygio yn ôl yr angen.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

7. Cyfathrebu dros y Ffôn.

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Annog / mynnu bod staff yn ateb galwadau ffôn â chyfarchiad dwyieithog.	Yn ôl yr angen.	Canolfan Gyswllt. Swyddfeydd y Comisiynydd Traffig. Y Pencadlys ym Mryste. Swyddfa Drwyddedu Ganolog.
Sicrhau bod cyfeiriaduron ffôn mewnol, gan gynnwys y rheini a gyhoeddir ar y fewnrwyd, yn dangos pa aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg.	Cwblhawyd. Wedi'i ddiweddaru Ebrill 2010 a'i fonitro bob deufis.	Tîm Gweinyddu.

2010 / 2011
Parhau i fonitro ac adolygu.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

8. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Sicrhau bod y staff sy'n gysylltiedig â threfnu cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwybodol o'r gofynion sydd wedi'u pennu yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.	Cwblhawyd.	Tîm Cyfathrebu, Bryste. Rheolwr Cefnogi'r Strategaeth Cwsmeriaid.
Dosbarthu gwybodaeth am ein gwasanaethau iaith Gymraeg mewn arddangosfeydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru. Bydd presenoldeb arwyddion a dogfennau dwyieithog yn ei gwneud hi'n glir bod VOSA yn croesawu busnes yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Yn ôl yr angen.	Tîm Cyfathrebu VOSA, Bryste. Rheolwyr Gweithredol.
Sicrhau bod staff, gan gynnwys staff y dderbynfa, yn gwybod pa rai o'u cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Sicrhau bod cyfeiriaduron staff ar y fewnrwyd yn cofnodi staff sy'n siarad Cymraeg.	Cwblhawyd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Tîm Gweinyddu.

2010 / 2011
Parhau i fonitro ac adolygu.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

9. Cysylltiadau eraill â'r Cyhoedd – Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebu

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Monitro'r gwaith o baratoi a chyflawni ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion yng Nghymru.	Angen monitro hyn yn rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Rhaid i VOSA gydymffurfio â safle FS4B (Cymorth Hyblyg i Fusnes) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddir gwybodaeth sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, sy'n cael ei chreu	Angen monitro hyn yn rheolaidd. Trafodaethau ynglyn â chynnwys y we ym Mis Mai / Mehefin 2010.	Rheolwyr Prosiectau Unigol. Tîm y Wefan.

gan VOSA, ar adran Moduro gwefan Direct.Gov yn Gymraeg a Seasneg. Darparu Safle Corfforaethol VOSA yn y Gymraeg yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg VOSA.		

2010 / 2011
Parhau i fonitro ac adolygu.

2011 / 2012
Parhau i fonitro ac adolygu.

2012 / 2013
Parhau i fonitro ac adolygu.

10. Wyneb Cyhoeddus Y Sefydliad Hunaniaeth a Delwedd Gorfforaethol

Camau Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
VOSA yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru – logo dwyieithog, papur pennawd dwyieithog, cardiau busnes dwyieithog, arwyddion dwyieithog ar gerbydau.	Monitro rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Monitro cydymffurfiad VOSA ac adolygu'r cynnydd yng nghyswllt y Cynllun yn rheolaidd.	Monitro rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Sicrhau bod gweithdrefnau a gweithrediadau'n cydymffurfio â'r Gynllun Iaith Gymraeg.	Monitro rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Arwyddion	Monitro cydymffurfiad yn yr adeiladau presennol a rhai newydd.	Y Gangen Ystadau. Gorfodaeth Traffig y ffyrdd.
Arwyddion Gorfodaeth traffig y ffyrdd symudol.	Wrthi'n cael eu cynhyrchu. Mehefin 2010. (Targed wedi'i gyflawni yn Ebrill 2010)	Y Gangen Cyfleusterau.
Papur Pennawd	Cynnal a monitro'r allbwn dwyieithog.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Hysbysiadau Swyddogol yng Nghymru.	Monitro'n rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

2010 / 2011
Cyflwyno adroddiad ar gydymffurfiaeth bob chwarter i bennaeth cyfathrebiadau corfforaethol.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

11. Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Polisi ffurflenni'n cael sylw yng Nghynllun Iaith Gymraeg VOSA	Monitro'n rheolaidd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Rheolwyr Gweithredol.
Bydd ffurlenni a thaflenni sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu fersiynau Cymraeg ohonynt.	Adolygu 'r ffurflenni ym mis Medi 2010 a monitro'n chwarterol.	Uwch Reolwyr VOSA Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

2010 / 2011
Parhau i fonitro darpariaeth ffurflenni dwyieithog.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

12. Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau.

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Polisi cyhoeddiadau'n cael sylw yng Nghynllun Iaith Gymraeg VOSA.	I ddod yn weithredol ar unwaith.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Uwch Reolwyr VOSA. Cyfarwyddwyr VOSA.

2010 / 2011
Parhau i fonitro'r sefyllfa.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

13. Cysylltiadau â'r Cyfryngau

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Darpariaeth ddwyieithog ar gyfer delio â'r cyfryngau yng Nghymru.	Yn ôl yr angen.	Tîm Cyfathrebu VOSA.

2010 / 2011
Parhau i fonitro'r sefyllfa.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

14. Datganiadau i'r Wasg

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yng Nghymru e.e. cau gorsaf brofi Llandrindod ar 25 Medi 2009.	Yn ôl yr angen.	Tîm Cyfathrebu VOSA.

2010 / 2011
Parhau i fonitro'r sefyllfa

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

15. Cyhoeddusrwydd, Hysbysebion Recriwtio Staff.

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Hysbysebion recriwtio dwyieithog yng Nghymru (er 1998)	Yn ôl yr angen.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg. Capita recruitment.
Cyhoeddusrwydd/hysbysebion/deunyddia u arddangos mewn unrhyw gynhadledd.	Yn ôl yr angen.	Cyfathrebu.

2010 / 2011
Parhau i fonitro'r sefyllfa.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

16. Recriwtio, Staffio a Strategaeth Hyfforddi ar gyfer Sgiliau Ieithyddol.

Camau Gweithredu	**Dyddiad Targed**	**Cyfrifoldeb**
Datblygu strategaeth sgiliau iethyddol, ar gais Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ar gyfer staff presennol a newydd VOSA. Bydd yn cynnwys yr holl fanylion am hyfforddiant, recriwtio a sgiliau staff presennol. (Bydd Bwrdd yr Iaith yn paratoi arweiniad ar hyn yn y man a fydd o gymorth wrth gyflawni'r gwaith hwn.) Nod = cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn VOSA.	Ionawr 2011 ac wedyn yn cael ei fonitro'n flynyddol (yn ystod mis Ionawr bob blwyddyn.) Wedi derbyn y canllawiau Mehefin 2010. Cyfarfod strategaeth hyfforddi ar gyfer sgiliau ieithyddol ar ddydd Gwener Awst 6 2010.	Pennaeth Adnoddau Dynol. Tîm Dysgu a Datblygu VOSA. Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.
Datblygu rhaglen sgiliau iaith Gymraeg er mwyn galluogi staff VOSA i ddatblygu a gwella'u sgiliau iaith Gymraeg.	Monitro'n flynyddol.	Pennaeth Adnoddau Dynol.
Sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg sydd gennym ar hyn o bryd yn teimlo bod y sgiliau perthnasol ganddynt i gyflwani'u gwaith yn Gymraeg.	Monitro'n flynyddol.	Pennaeth Adnoddau Dynol.
Gwella ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg ymysg pawb drwy raglenni sefydlu VOSA a rhoi gwybod am y sgiliau sydd eisoes yn bodoli yn VOSA.	Monitro'n flynyddol.	Pennaeth Dysgu a Datblygu. Pennaeth Amrywiaeth.
Sicrhau bod ystyriaethau ieithyddol yn cael eu prif-ffrydio yn yr holl weithdrefnau a phrosesau adnoddau dynol.	Monitro'n flynyddol.	Pennaeth Adnoddau Dynol.
Sicrhau bod y rheolwyr Adnoddau Dynol yn ystyried anghenion ieithyddol swyddi a lleoliadau wrth benderfynu ar ba staff sy'n briodol ar gyfer swydd benodol yng Nghymru.	Ebrill 2010 a'i fonitro'n flynyddol wedyn.	Pennaeth Adnoddau Dynol. Dysgu a Datblygu.
Ymrwymiad gan Uwch Reolwyr a Rheolwyr Llinell i ganiatáu i staff fynychu cyrsiau yn unol â pholisi VOSA a ddisgrifir yn y Llawlyfr Staff.	Yn ôl yr angen.	Pennaeth Adnoddau Dynol. Dysgu a Datblygu.
Bydd staff a glustnodir ar gyfer hyfforddiant yn mynychu cyrsiau, yn cwblhau gwaith	Ar waith yn barod.	Adnoddau Dynol. Tîm Dysgu a Datblygu VOSA

cartref ac yn defnyddio'u Cymraeg yn y gwaith. Mae'r polisi a'r arweiniad wedi'i nodi yn y Llawlyfr Staff o ran yr ymrwymiad amser a ganiateir ar gyfer hyfforddiant.		
Cynnig dewis iaith i ymgeiswyr am swydd a gwneud darpariaeth briodol ar eu cyfer yn y prosesau dethol.	Yn ôl yr angen. Monitro rheolaidd.	Pennaeth Adnoddau Dynol.

2010 / 2011
Adolygu'r strategaeth hyfforddi ar gyfer sgiliau ieithyddol ym mis Ionawr 2011.

2011 / 2012
Adolygu'r strategaeth ym mis Ionawr 2012.

2012 / 2013
Adolygu'r strategaeth ym mis Ionawr 2013.

17. Sylwadau a Chwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg.

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Sicrhau bod unrhyw sylwadau / cwynion oddi wrth y cyhoedd yng nghyswllt safon y gwasanaeth Cymraeg yn cael eu dwyn i sylw Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cydgysylltydd Cwynion.	Monitro rheolaidd.	Cydgysylltydd Cwynion. Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

2010 / 2011
Parhau i gofnodi a monitro'r broses.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

18. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg

Camau Gweithredu	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun drwy beirianweithiau cyfathrebu mewnol.	Cwblhawyd.	Rheolwr y Cynllun Iaith Gymraeg.

2010 / 2011
Cyhoeddi'r cynllun diwygiedig ar safle corfforaethol VOSA ym mis Mehefin / Gorffennaf 2010.

2011 / 2012
Fel yn y flwyddyn flaenorol.

2012 / 2013
Fel yn y flwyddyn flaenorol.